



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru

Yn dilyn ein llythyr wedi'i ddyddio 21 Ebrill, dilynwch y [ddolen hon](#) i weld yr amserlen ar gyfer Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru sydd i ddilyn ar ôl hanner tymor. Fe welwch ein bod wedi cadw'r wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor yn glir, ac y cynhelir 3 gweithdy wedyn yn ystod wythnosau 2, 3 a 4. Bwriad y gweithdai hyn yw parhau i ddatblygu trafodaethau eich clystyrau ar greu gweledigaeth a rennir yn y sesiwn cyntaf, ac yna fe fydd gweithdai 2 a 3 yn ddilyniant i'r weminar sydd yn edrych ar Fframwaith y Cwricwlwm, a fydd ar gael ar 26 Mai. Mae'r gweithdai yn dilyn yr un fformat â'r gweithdai Rheoli Newid gyda chyfle rheolaidd i drafod mewn grwpiau llai.

Mawr obeithiwn y byddwch yn gallu mynychu'r gweithdai hyn ac y bydd cyfleoedd cyfoethog i chi gynnal trafodaethau pellach ar y daith ddiwygio.

Bydd posib cofrestru ar gyfer y gweithdai trwy [G6](#) ble byddwch wedyn yn derbyn linc Zoom a llawlyfr i gefnogi'r gweithdy.

Gweminar: 'Papurau Procio' ar y Daith Ddiwygio

Diolch i bawb a fynychodd y weminar 'Darnau Meddwl' ar y Daith Ddiwygio ddydd Iau - dilynwch y ddolen hon i weld y recordiad:

[Gweminar Gymraeg](#) | [Gweminar Saesneg](#)

Dilynwch y ddolen hon i weld y 'Darnau Meddwl':

[Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

DIOLCH
THANK YOU



Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#). Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

27/05/2021 - 25/06/2021	DYDDIAD			CYFRWNG
ANG – Gweithdy Diwrnod 3 Asesu ar gyfer Dysgu – prosiect Shirley Clarke (dwyieithog)	27/05/21			Dwyieithog
ANG - Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG	27/05/21			Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG	28/05/21			Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 6 - Sesiwn 1)	08/06/21			Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 7 - Sesiwn 1)	08/06/21			Dwyieithog
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (David Hughes, Llangefni, Y Bont)	14/06/21	21/06/21	28/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Morgan Llwyd, Maes Garmon)	14/06/21	21/06/21	28/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Maelor, St Joseph's, St Christopher's)	14/06/21	21/06/21	28/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Creuddyn, D. Conwy, Glan Clwyd)	15/06/21	22/06/21	29/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Friars, Tryfan, Brynrefail, D. Ogwen)	15/06/21	22/06/21	29/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Alun, Hawarden, Flint, Pen Coch, Maes Hyfryd)	15/06/21	22/06/21	29/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Eirias, Aberconwy, Bryn Eilian)	15/06/21	22/06/21	29/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Syr Hugh Owen, D. Nantlle)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Bryn Alyn, Clywedog, Rhosnesni)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Emrys ap Iwan, John Bright, Denbigh High, Plas Brondyffryn)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Ardudwy)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Glan y Mor, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Castell Alun, Connah's Quay, Elfed, Argoed)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Ruabon, Grango, Darland)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (St David's, Holywell, St Richard Gwyn)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Brynhyfryd, Dinas Bran a Ceiriog)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Dwyieithog
Google for Education	17/06/21			Dwyieithog
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (cyfrwng Saesneg)	23/06/21			Saesneg
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (cyfrwng Cymraeg)	24/06/21			Cymraeg


Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 3** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **18 Mehefin 2021**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon

Mae Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon yn gyfres o glipiau fideo, chanllawiau a thafenni, sy'n datgloi cyfrinachau dysgu, gan roi'r offer, y mewnwelediadau a'r strategaethau sydd eu hangen ar rieni i helpu eu plant i ddysgu, tyfu a ffynnu.

Bydd yr adnodd dwyieithog hwn ar gael yn rhad ac am ddim, i rieni plant oed cynradd ar draws y rhanbarth. Bydd fideo rhagarweiniol a chodau arbennig ar gael gan YCG eich ysgol ar ôl hanner tymor.

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon



Dyfodol Byd-Eang GwE: leithoedd Rhyngwladol



CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

CERDD IAITH:

Defnyddio dulliau creadigol i ddysgu ieithoedd

SBAENEG/CYMRAEG/SAESNEG

Mae **British Council Cymru** yn cynnig rownd newydd o'u **rhaglen hyfforddi ar-lein** lwyddiannus iawn i helpu athrawon ysgolion cynradd i **ddysgu trydedd iaith** yn y dosbarth. Bydd y rhaglen hyfforddi'n tywys athrawon drwy wefan newydd, sef Cerdd Iaith. Mae'r wefan a'i hadnoddau ar gael yn rhad ac am ddim ac yn cynnwys dros 30 o weithgareddau sy'n defnyddio cerddoriaeth a drama i **ddysgu Cymraeg a Sbaeneg**.

Gall athrawon anarbenigol, heb unrhyw wybodaeth flaenorol o Sbaeneg, ddefnyddio'r adnodd ac mae'r gweithgareddau yn datblygu fesul cam. Mae'r hyfforddiant hefyd yn addas i athrawon sydd â rhywfaint o wybodaeth am Sbaeneg neu gerddoriaeth.

Cynhelir y sesiynau hyfforddi nesaf ar **22 neu 24 Mehefin, 2021**. Bydd y rhain ar-lein unwaith eto, fel ag yr oeddent yn yr Hydref.

Am ragor o wybodaeth, manylion am gostau, cyllid a sut i gofrestru ar gyfer sesiwn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

DIGWYDDIADAU AR GYFER YSGOLION UWCHRAED

GOETHE-INSTITUT LLUNDAIN

Sefydliadau Confucius Cymru

Dydd Sadwrn 5 Mehefin, 11 am-12.30pm (i'w gadarnhau): Clwb Caligraffeg Tsieineaidd

Manylion pellach ac archebion ar gael yn fuan - cysylltwch â confucius@cardiff.ac.uk os hoffech gofrestru diddordeb.

Sioe Goginio Green Sauce, Dydd Sadwrn 12 Mehefin, 6pm i 7pm

Mae cofrestru bellach ar agor i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed o'r DU a'r Almaen, sydd â chyd-ddiddordeb mewn coginio, i wneud cais. [Cliciwch yma](#).

Diwrnod Athrawon Almaeneg, dydd Sadwrn 3 Gorffennaf 2021, 10:30am i 2pm

Mae'r diwrnod hwn wedi'i anelu at athrawon ysgolion uwchradd a bydd yn cynnwys seminarau, cyngor ac offer ar gyfer dysgu Almaeneg. Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).

"Fantasy Football": Euro 2020

[Cliciwch yma](#) am fanylion llawn.

Profiad Gwaith Rhithwir i Ddisgyblion Chweched Dosbarth, dydd Llun 25 Hydref – dydd Gwener 29 Hydref 2021

Manylion llawn ar gael [yma](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Google for Education - Datblygiad Proffesiynol

Mae Google wedi rhyddhau ei raglen hyfforddiant a datblygiad sydd yn arbennig ar gyfer athrawon Cymru. Mae'n addas i ddefnyddwyr profiadol Google for Education a hefyd i athrawon sy'n dymuno dysgu mwy am y llwyfan dysgu digidol. [Cliciwch yma](#) i weld beth sydd ar gael.

Mae hefyd wedi rhyddhau cyfres o sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd drwy ddefnyddio rhaglenni Google yn ogystal â sesiynau yn manylu ar agweddau ar y Dyniaethau. [Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth.

Google for Education

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

• 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuoel hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Wythnos Ffocws Arweinyddiaeth Genedlaethol *Cadwch y dyddiad

28 Mehefin - 2 Gorffennaf 2021 - 09:30-11:30

Prif siaradwyr a gweithdai sy'n amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer gwella deilliannau i ddysgwyr, gyda chyfleoedd i weld sut gallai hyn edrych ar waith.

Manylion i ddilyn.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Mae Ymsefydlu ANG yng Nghymru yn newid...

DYLAI POB YSGOL FOD YN BAROD YM MIS MEDI 2021 AR GYFER ANG

[Cliciwch yma](#) i weld y camau sy'n rhaid i bob ysgol eu dilyn er mwyn sefydlu ANG o fis Medi 2021 ymlaen.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ieuanjones@gwegogledd.cymru



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Wythnos Ffocws GDD 2021

Cynhaliwyd Wythnos Ffocws GDD ym mis Mawrth 2021, digwyddiad cenedlaethol i ddathlu, rhannu a llywio'r defnydd o GAD.

Roedd yr wythnos ddysgu a rhannu hon yn dathlu gwaith o bob rhan o Gymru parthed y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr difreintiedig trwy wariant GDD wedi'i dargedu.

Roedd yr wythnos wedi'i chynllunio i dynnu sylw at bwysigrwydd cyplu'r GDD ag ymyriadau sy'n seiliedig ar ymchwil a datblygiad mewn arferion Addysgu a Dysgu er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr difreintiedig a chymryd rhan mewn dysgu wyneb yn wyneb.

Yn ystod yr wythnos, cyflwynodd y consortia, ysgolion a lleoliadau a phartneriaid proffesiynol ystod o weithdai datblygiad proffesiynol, trafodaethau a sgysiau.

[Cliciwch yma](#) i gael mynediad i gyflwyniadau siaradwyr allweddol ynghyd â'r adnoddau.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn gweithio i gyd-lunio'r ychwanegiadau penodol i ganllawiau'r cwricwlwm a nodwyd ym mis Ionawr 2020. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn paratoi Codau drafft yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Maent yn gofyn am eich adborth ar y drafftiau hyn erbyn **16 Gorffennaf** fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu ar y cyd. Bydd y gweithgornau ymarferwyr yn defnyddio eich mewnbwn i helpu i fireinio'r drafftiau, cyn i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru gael eu diweddarau ar-lein yn yr hydref. Ceir dolenni i'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb [yma](#).



Adnoddau Newydd ar gyfer Ysgolion

Mae Cangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg o fewn Is-Adran y Gymraeg yn mynd i'r afael â'r gwaith o gomisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 3-19 oed a hynny er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu'r cwricwlwm a chymwysterau yng Nghymru. [Dyma](#) rai adnoddau sydd wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar.



Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)

Drwy Lywodraeth Cymru, mae hyfforddiant a ddatblygwyd gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) bellach ar gael i holl uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion Gogledd Cymru. Bydd 'Supporting Schools in Challenging Racism'/'Cefnogi Ysgolion i Herio Hiliaeth' yn eich helpu chi i ddatblygu gallu staff a myfyrwyr i weithio tuag at gyflawni'r nod o oddef dim hiliaeth mewn addysg yng Nghymru.

Bwriadwyd i'r hyfforddiant fod wyneb yn wyneb, yn hyfforddi a datblygu'r aelodau ond gyda chyfyngiadau COVID-19 bu'n rhaid i'r Rhwydwaith ddarparu'r adnodd ar-lein.

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro i:

- Feithrin hyder i adnabod a delio gydag agweddau hiliol
- Gwellu gallu athrawon a rheolwyr addysg i alluogi eu myfyrwyr i adnabod a herio hiliaeth.
- Rhoi modd i athrawon a rheolwyr gorffori cydraddoldeb hiliol yn y cwricwlwm.

Am fwy o wybodaeth ac i fynd at yr hyfforddiant, [cliciwch yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

BookTrust - Cylchlythyr Ysgolion Cynradd

Yn y [rhifyn hwn](#) maen nhw'n edrych ar beth i'w ddarllen ar ôl Holly Webb, mae'r awdur Zillah Bethell yn siarad am hud adrodd straeon a llawer mwy!



Datgloi Arweinyddiaeth

- **DYDD GWENER, 18 MEHEFIN - 09:30-11:30**
- **DYDD GWENER, 25 MEHEFIN - 09:30-11:30**
- **DYDD GWENER, 2 GORFFENNAF - 09:30-11:30**

Ymunwch â ni ar gyfer cyfres weminar nesaf Datgloi Arweinyddiaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Bydd y rhaglen ddysgu broffesiynol hon yn archwilio arweinyddiaeth yng Nghymru a'i chyd-destun addysgol. Bydd pob gweminar yn cael ei harwain gan siaradwr gwadd nodedig gan gynnwys: Cerys Furlong (Prif Weithredwr Chwarae Teg), Yr Athro Damian Hughes (Athro Seicoleg Sefydliadol a Newid ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion) a Dai Rees (Arweinydd Perfformiad a Strategaeth).

Am ddim, cofrestru yn hanfodol - <https://nael.cymru/cy/events/>



Trawsfurfio Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb


DIGWYDDIAD DYSGU PROFFESIYNOL AR-LEIN CYMRU AR
GYFER YSGOLION CYNRADD, UWCHRADD AC ARBENNIG

📅 DYDD IAU, 24 MEHEFIN 2021 ⌚ 08:30-15:30

Mae ACRh yng Nghymru yn newid. Bydd Hawliau, Tegwch, Cynhwysiant a Grymuso yn ganolog wrth gynllunio a darparu cwricwlwm statudol. I gael rhagor o wybodaeth a dysgu sut i lunio ACRh o ansawdd uchel, ymunwch â ni yn y gynhadledd undydd hon i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).



IntoFilm Cymru: Dau gyfle arbennig i ysgolion cyfrwng Cymraeg

Gwyllo a thrafod y ffilm fer 'Elen':

B15/6 : <https://www.intofilm.org/films/19405>

Rydym ni'n chwilio am ysgolion cyfrwng Cymraeg i gymryd rhan mewn prosiect a fydd yn rhoi'r cyfle i chi archwilio a thrafod themâu'r ffilm Elen, ar yr un pryd ag ehangu eich gwybodaeth a sgiliau creu ffilm.

Dyma'r hyn sydd angen i chi ei wneud cyn 30 Mehefin:

Gwyllo'r ffilm 'Elen' – ffilm fer, sydd wedi ei lleoli yng Ngwynedd (Gogledd Cymru) - stori am gyfeillgarwch a chydabyddiaeth ac sy'n mynd â ni ar antur i ddychymyg bywiog merch deng mlwydd oed sydd ag epilepsi.

Defnyddio'r adnodd byr am y ffilm <https://www.intofilm.org/resources/1509> gyda myfyrwyr blwyddyn 5 neu 6 a rhannu'r gwaith / tystiolaeth â ni.

Gwneud ymchwil a pharatoi cwestiynau ar gyfer gwneuthurwyr y ffilm – Lisa Jên ac Alice Lusher – ac anfon eich cwestiynau at Into Film erbyn 28 Mehefin.

Ymunwch â ni am sesiwn holi ac ateb byw gyda Lisa ac Alice, am 11am ar 30 Mehefin am 30 munud

I wybod mwy a datgan diddordeb, anfonwch e-bost i cardiff@intofilm.org

Noder – mae lle i hyd at 10 ysgol ymunwch â'r sesiwn, felly cyntaf i'r felin amdani!

Datblygu Stori - pecyn o weithgareddau creu stori ffilm

Mae ein tîm yng Ngogledd Iwerddon wedi creu pecyn byr ar gyfer myfyrwyr 7-11 mlwydd oed, sy'n helpu pobl ifanc i ddylunio a chreu stori ffilm. Mae'r llyfryn lliwgar yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc datblygu syniadau a chreadigrwydd, datblygu sgiliau creu stori a dysgu am holl elfennau pwysig a chynhwysion ffilm dda; o'r cymeriadau i'r gwisgoedd, o'r set i'r sain. Dyma'r fersiwn Saesneg :

<https://www.intofilm.org/resources/1748>

Rydym wrthi'n creu fersiwn Gymraeg a fydd ar gael i'w lawrlwytho cyn gwyliau'r haf.

Er mwyn gwybod faint o alw fydd ar gyfer y copïau print, rydym ni'n gofyn i chi gysylltu â ni i ddatgan eich diddordeb.

Gellir datgan diddordeb drwy anfon yr isod yn ôl ar e-bost i cardiff@intofilm.org cyn dydd Llun 7 Mehefin.

Noder os gwelwch yn dda: drwy ddarparu eich cyfeiriad e-bost, mi fyddwch yn cytuno i staff Into Film Cymru gysylltu â chi i drafod y prosiectau dan sylw. Er mwyn derbyn mwy o wybodaeth yn rheolaidd am waith a gwasanaeth Into Film gellir creu cyfrif rhad ac am ddim ar wefan Into Film - www.intofilm.org

INTO
FILM

Barod ar gyfer Prifysgol

Mae prifysgolion ledled Cymru wedi dod ynghyd i ddatblygu y platfform newydd Barod ar gyfer Prifysgol.

Hwb hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth i symud i addysg uwch mor syml a di-straen ag y bo modd.

I ble bynnag rydych chi'n mynd ym mis Medi, byddwch yn #BarodArGyferPrifysgol heddiw: openlearn.com/barod-ar-gyfer-prifysgol



Helpu Eich Plentyn i Ddarllen



Cwrs byr ar-lein i rieni a gofalmwr plant y Cyfnod Sylfaen neu blant sydd ar fin dechrau'r ysgol.

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni a gofalmwr plant blynyddoedd cynnar i feithrin hyder mewn technegau sylfaenol a gweithgareddau hwyliog er mwyn annog eu plentyn i ddysgu darllen

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Sgwrsio, Dysgu, Gwneud - Dysgu Eich Plentyn am Arian

Bydd y gweithdy dwy awr hwn yn trafod:

- sut i ddysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd
- annog plant i fod yn gynilmwr craff
- datblygu lles ariannol i'r dyfodol

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu mae arnoch angen taflenni i'w hanfon at rieni, anfonwch e-bost at

jane.watkins@adultlearning.wales



Xplore! Wreccsam

GÁLW AR HOLL BRIFATHRAWON, CYDLYNWYR STEM NEU BENAETHIAID GWYDDONIAETH

Hoffech chi fanteisio ar ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'ch disgyblion? Oes ganddyn nhw ddiffyg diddordeb mewn rhai o'r pynciau STEM?

Mae Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth *Xplore!* (Techniquet Glyndŵr gynt) yma i'ch helpu i droi syniadau cymhleth yn sesiynau rhyngweithiol a difyr.

Rydym ni'n barod amdanoch chi. Cysylltwch â ni heddiw ar bookings@xplorescience.co.uk



Cylchlythyr Gwanwyn Technocamps - Newsbyte

Mae rhai digwyddiadau a chystadlaethau cyffrous ar y gweill y gallwch ddarllen amdanynt [yma](#). Yn y cyfamsr, dilynwch y sianel cyfryngau cymdeithasol ([@technocamps](#)).



Cronfa Adfer Dysgu Creadigol

Mae'r rhaglen dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn darparu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru i'w galluogi i weithio gyda'u dysgwyr a'u hathrawon, ochr yn ochr ag ymarferwyr creadigol, i ganolbwyntio ar adfywio, ail-greu a chysylltu eto â dysgu; gan archwilio ffyrdd chwareus a dychmygus o ddysgu lle mae'r ffocws yn dynn ar lesiant dysgwyr ac athrawon. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm, 17 Mehefin 2021. Am fanylion pellach dilynwch y ddolen: <https://arts.wales/cy/cronfa-adfer-dysgu-creadigol>



Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg 2021-2022

DARPARIAETH PRIFYSGOL BANGOR

MAE'R CYRSIAU AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

Manylion llawn ar gael [yma](#). [Cliciwch yma](#) i weld y fideo.

I gofrestru, cysylltwch â'ch awdurdod lleol:

YNYS MÔN: OwenDavies@ynysmon.gov.uk

SIR DDINBYCH: gareth.williams@denbighshire.gov.uk

CONWY: Diane.Evans@conwy.gov.uk

SIR Y FFLINT: rhian.roberts@flintshire.gov.uk

WRECSAM: Buddug.SelwayJones@wrexham.gov.uk



post@gwegogledd.cymru

